# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2021 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2792A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau 10

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 18

Atodiad 2 – ffi archwilio 21

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 22

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2021 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- fy argyhoeddi fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a'u bod yn unol â'r awdurdodau; a hefyd
- fy argyhoeddi fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n nodi fy nghanfyddiadau ar y cyfan dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a achoswyd gan bandemig COVID-19, gan adfer gwasanaethau ar yr un pryd. Cafodd fy rhaglen waith ei dylunio fel ag i roi'r sicrwydd gorau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng cyfredol ar gydnerthedd gwasanaethau cyhoeddus a'u ffurf yn y dyfodol. Roeddwn yn amcanu at sicrhau na fyddai fy ngwaith yn amharu ar ymdrechion cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau hefyd ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Mae cyfyngiadau'n dal i fodoli ar wneud gwaith archwilio ar safleoedd, ac fe wnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle'r oedd yn bosibl, gan ddefnyddio technoleg. Mae'n anorfod bod hyn wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gwneud gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i sefydlu newidiadau cadarnhaol i'n ffyrdd o weithio.

4 Fel yn 2020, nid oedd fy ngwaith i archwilio'r cyfrifon heb ei heriau, nid dim ond o ran sut a ble yr oeddem yn gwneud y gwaith, ond hefyd o ran rhoi sylw i ystyriaethau ar gyfer datganiadau ariannol a oedd yn codi'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant i'w gyflawni'n adlewyrchu cydymdrech gwych gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd i gofleidio a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg i'r materion niferus a oedd yn codi ac i fod yn ystyriol ohonynt.

5 Rwyf wedi addasu ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i'w gwneud yn bosibl gweithio o bell. Mae fy rhaglen waith wedi darparu ffocws ar themâu, gwersi a chyfleoedd mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r GIG a llesiant staff y GIG. Rwyf wedi adolygu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu, a'r broses o gyflwyno'r brechlyn COVID-

19. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ynghylch sut y mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i ymateb i'r pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau. Rwyf hefyd wedi adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith arfaethedig sy'n cael ei ail-gwmpasu ar hyn o bryd.

7 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2021.

8 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2021 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr Interim a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 8 Chwefror 2022. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad yn un o gyfarfodydd diweddarach y Bwrdd a bydd pob aelod yn cael copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

11 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd[1] wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i). Fodd bynnag, gosodais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i'r Senedd, i dynnu sylw at ddatgeliadau yn nodyn 21.1 yn y cyfrifon sy'n ymwneud ag effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.

12 Dygais bum mater archwilio, ynghyd â'm hargymhellion archwilio, i sylw Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Byddaf yn adolygu camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2021-22.

13 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi mantoli'r cyfrifon ar gyfer ei wariant cyfalaf dros y cyfnod o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, ni wnaeth fantoli'r cyfrifon ar gyfer ei

[1] Rwy'n archwilio ac yn ardystio Adroddiad ar Berfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd. Term generig yw 'Cyfrifon'.

wariant refeniw dros yr un cyfnod. Felly cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21.

14 Heblaw am y ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'w derfyn ar gyfer adnoddau refeniw, ni chanfûm unrhyw drafodion ariannol perthnasol nad oeddent yn unol â'r awdurdodau a oedd yn eu lle, neu nas defnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd.

15 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, fe gynhwysais sylwebaeth Pwyslais ar Fater sy'n tynnu sylw at nodyn 21 yn y cyfrifon archwiliedig. Mae'r nodyn yn disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyflwynwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Roedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn ymwneud â'r angen am gamau cywirol interim i ymdrin ag effaith newidiadau Trysorlys EM i'r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn uwch glinigwyr. Er na wnes i addasu fy marn archwilio mewn perthynas â'r mater hwn, gosodais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

16 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn gwneud cyfraniad pwysig i reoli COVID-19 yng Nghymru. Er bod y rhaglen wedi ei chael yn anodd ymdopi â brigau cynharach yn nhrosglwyddiad y feirws, mae wedi dangos gallu i ddysgu ac esblygu'n gyflym mewn ymateb i'r heriau y mae wedi'u hwynebu.
- mewn perthynas â Threfniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru: ers yr adolygiadau blaenorol yn 2015, mae trefniadau llywodraethu, rheoli a chynllunio wedi gwella, ond yn awr bydd effaith COVID-19 yn golygu bod angen strategaeth glir i adfer gwasanaethau a byddai'n dal o fudd adolygu'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn unol â'r ymrwymiadau yn 'Cymru Iachach'.
- mae'r rhaglen i frechu rhag COVID-19 yng Nghymru wedi cael ei chyflawni ar gyflymder sylweddol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol ac ar lefel y DU yn cydweithio i frechu cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru. Yn awr mae angen cynllun eglur ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.
- mae holl gyrff y GIG wedi cadw ffocws eglur ar les staff trwy gydol y pandemig ac wedi rhoi ystod eang o fesurau ar waith i gefnogi iechyd corfforol a lles meddyliol eu staff yn ystod yr argyfwng. Mae'n hollbwysig yr adeiledir ar y gweithgareddau hyn, a bod lles staff yn dal i fod yn flaenoriaeth ganolog i gyrff y GIG wrth iddynt ymdrin â heriau cyfunol adfer gwasanaethau, parhau i ymateb i bandemig COVID-19, a hefyd rheoli pwysau tymhorol.

- mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol yn effeithiol, ond mae cyfleoedd o hyd i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar y modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol.
- mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau a danategir gan systemau sicrwydd sy'n aeddfedu, ond mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ymhellach. Er bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i roi cymorth i adfer gwasanaethau, mae angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau ar y cyfan ac adrodd ar hynny.
- ceir trosolwg gadarn ar gyllid y Bwrdd Iechyd a ategir gan adroddiadau o ansawdd da, ond mae gwendidau mewn rhai rheolaethau ariannol. Mae'r pandemig yn dal i achosi risg i allu'r Bwrdd Iechyd i adennill costau.
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym yn 2017 mewn perthynas â'i wasanaethau radioleg, ond mae angen gwaith pellach.

17 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

18 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21. Trwy gyfrwng y datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian. Mae paratoi'r datganiadau'n elfen hanfodol o ddangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus.

19 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2021 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

20 Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2020-21

21 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi cael eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i). Fodd bynnag, gosodais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn nodyn 21 yn y cyfrifon, sy'n disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyflwynwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn ei chyfarwyddo i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG a ysgwyddwyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20. Ni wnes amodi fy marn archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

22 Dygais bump o faterion ac argymhellion archwilio i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd dderbyn fy holl argymhellion a nodi ei gamau gweithredu bwriadedig a dyddiadau ar gyfer eu rhoi ar waith. Roedd pedwar o'r pum mater yn ymwneud â materion technoleg gwybodaeth (TG), y gwnaeth fy nhîm felly eu cyflwyno i Bwyllgor Digidol y Bwrdd Iechyd hefyd. Byddaf yn adolygu camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2021-22.

23 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei gyfrifon drafft erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru, ac fe wnes innau gydymffurfio ag amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer ardystio'r archwiliad.

24 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe nododd fy nhîm y materion hyn wrth Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd,

a'i Fwrdd, ar 10 Mehefin 2021. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau arwyddocaol nas cywirwyd. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Tynnais sylw at gywiro amryw gamddatganiadau perthnasol, mewn rhyw ddeg maes o fewn y datganiadau ariannol. |
| Materion arwyddocaol eraill | Nodais bum argymhelliad ar gyfer gwella, gydag ymatebion ffurfiol y rheolwyr, y gwnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd eu hystyried ar 7 Medi 2021. |

25 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2021 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

26 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cefais y datganiadau ariannol drafft ar 3 Tachwedd 2021, ac rwy'n mynd i fod yn cyflwyno fy nghanfyddiadau i Bwyllgor Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd ar 20 Ionawr 2022.

## Rheoleidd-dra Trafodion Ariannol

27 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi mantoli'r cyfrifon ar gyfer ei wariant cyfalaf dros y cyfnod o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, ni wnaeth fantoli'r cyfrifon ar gyfer ei wariant refeniw dros yr un cyfnod, gyda diffyg dros dair blynedd o £9.724 miliwn. Felly fe gyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21.

28 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn mantoli'r cyfrifon, mae ei wariant yn mynd y tu hwnt i'w bwerau i wario ac felly rhaid i mi amodi fy marn ar reoleidd-dra. Mae **Arddangosion 2 a 3** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â'i ddyraniad adnoddau cyfalaf ond heb gwrdd â'i ddyraniad adnoddau refeniw dros y cyfnod o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021.

**Arddangosyn 2: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau refeniw**

| | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau gweithredu | 945,419 | 1,025,612 | 1,205,955 | 3,176,986 |
| Dyraniad adnoddau refeniw | 935,547 | 1,025,670 | 1,206,045 | 3,167,262 |
| Tanwariant (gorwariant) yn erbyn y dyraniad | (9,872) | 58 | 90 | (9,724) |

**Arddangosyn 3: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau cyfalaf**

| | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau cyfalaf | 48,413 | 58,070 | 95,343 | 201,826 |
| Dyraniad adnoddau cyfalaf | 48,487 | 58,159 | 95,447 | 202,093 |
| Tanwariant (gorwariant) yn erbyn y dyraniad | 74 | 80 | 104 | 267 |

Ffynhonnell: Cyfrifon archwiliedig 2020-21

29 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i gael yr incwm ac ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad yw'r Bwrdd Iechyd yn meddu ar y pwerau i'w cael neu eu hysgwyddo. Canfûm, heblaw am fethiant y Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon ar gyfer ei wariant refeniw, nad oedd ganddo unrhyw drafodion ariannol perthnasol nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

30 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio'i adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad

yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- archwilio sut y mae cyrff y GIG wedi ymateb i heriau cyflawni'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu;
- adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;
- adolygu pa mor dda yr oedd y broses o gyflwyno'r rhaglen i frechu rhag COVID-19 yn mynd rhagddi;
- adolygu sut y gwnaeth cyrff y GIG gefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19;
- cwblhau asesiad strwythuredig fesul cam o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

31 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

## Y rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu

32 Fe wnaeth fy ngwaith archwilio sut yr ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus i heriau cyflawni Rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â gwneud sylwadau am gyflawni'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu hyd at a chan gynnwys ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth fy adroddiad nodi rhai o'r heriau a chyfleoedd allweddol a fydd yn cyflwyno'u hunain fel rhan o'r frwydr barhaus i reoli COVID-19.

33 Canfûm fod gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru wedi cydweithio'n dda i adeiladu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn gyflym. Fe wnaeth cyfluniad y system gyfuno goruchwyliaeth ac arbenigedd technegol cenedlaethol â pherchnogaeth leol a rhanbarthol ar y rhaglen, a'r gallu i ddefnyddio cudd-wybodaeth a gwybodaeth leol i lunio ymatebion.

34 Mae trefniadau ar gyfer profi ac olrhain cysylltiadau wedi esblygu wrth i'r pandemig fynd rhagddo. Ond fe brofodd yn gryn her cynnal perfformiad gofynnol y trefniadau hyn yn wyneb galw cynyddol.

35 Er gwaethaf gweithgarwch profi ac olrhain cynyddol, fe barhaodd y feirws i ymledu, ac fel mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol, bu angen i weithgarwch profi ac olrhain gael ei ategu â chyfyngiadau symud lleol a chenedlaethol mewn ymgais i leihau cyfraddau trosglwyddo.

36 Er bod ystod o fecanweithiau cymorth yn bodoli, mae'n dal i fod yn anodd gwybod pa mor dda y mae'r elfen 'diogelu' o Profi, Olrhain, Diogelu wedi bod yn gweithio i gynorthwyo pobl i hunanynysu.

## Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

37 Ym mis Mai 2021, cyhoeddais fy adolygiad o drefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Cydbwyllgor yw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sy'n cynnwys, ac yn cael ei ariannu gan, y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. O ddydd i ddydd, mae'r Cydbwyllgor yn dirprwyo cyfrifoldeb gweithredol am gomisiynu i swyddogion Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, trwy'r tîm rheoli. Mae gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a letyir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gyllideb flynyddol o £680 miliwn ac mae'n gwneud penderfyniadau ar y cyd ynglŷn ag adolygu, cynllunio, caffael a monitro perfformiad gwasanaethau arbenigol ar gyfer poblogaeth Cymru ar ran byrddau iechyd.

38 Yn 2015, fe wnaeth dau adolygiad ar wahân amlygu materion gyda threfniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers y ddau adolygiad, ynghyd â phwysau cynyddol ar y gwasanaeth a phwysau ariannol cynyddol a'r dirwedd newidiol o ran comisiynu cydweithredol, roeddwn yn teimlo ei bod hi'n amserol adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

39 Canfu fy adolygiad fod nifer o welliannau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau llywodraethu ar y cyfan ym Mhwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ers 2015. Fe wnaed cynnydd da i gryfhau trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwasanaethau arbenigol, er bod cyfle o hyd i gynyddu'r sylw a roddir i adrodd ar gyllid, perfformiad, ac ansawdd yn y Cydbwyllgor. Mae angen adolygu'r trefniadau ar gyfer recriwtio a gwobrwyo aelodau annibynnol sy'n eistedd ar y Cydbwyllgor hefyd o ystyried rhai o'r heriau o ran llenwi'r rolau hyn. Mae gan aelodau presennol y Cydbwyllgor berthynas weithio iach ac maent yn gweithredu'n dda gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'r model cyfredol yn creu gwrthdaro buddiannau posibl oherwydd bod rhai aelodau o'r Cydbwyllgor hefyd yn Brif Swyddogion y cyrff iechyd a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau arbenigol.

40 Canfu fy adolygiad fod trefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau a gomisiynir yn dda ar y cyfan a bod y ffocws ar werth yn gwella. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau newydd allweddol megis modelau gwasanaeth newydd ar gyfer trawma mawr a llawfeddygaeth thorasig wedi cymryd amser hir i'w cytuno a'u rhoi ar waith. Canfu fy adolygiad hefyd fod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau arbenigol, ac y dylai datblygu cynllun i adfer gwasanaethau arbenigol fod yn flaenoriaeth yn awr. Mae cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru Iachach, yn dynodi bwriad i adolygu nifer o swyddogaethau cenedlaethol a letyir, gan gynnwys Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, gan amcanu at 'gyfnerthu gweithgarwch cenedlaethol a gwneud llywodraethu ac atebolrwydd yn fwy eglur'.

41 Er bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi parhau i wella, mae fy adroddiad yn dangos bod nifer o agweddau ar fodel Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru y mae'n werth rhoi sylw pellach iddynt.

## Y rhaglen frechu

42 Fe ganolbwyntiodd fy archwiliad ar gyflwyno'r rhaglen i frechu rhag COVID-19 yng Nghymru hyd at fis Mehefin 2021, y ffactorau a effeithiodd ar ei chyflwyno a heriau a chyfleoedd yn y dyfodol.

43 Mae'r rhaglen frechu wedi cael ei chyflawni ar gyflymder sylweddol. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, y cyfraddau brechu yng Nghymru oedd yr uchaf o blith y pedair gwlad yn y DU, ac roeddent gyda'r uchaf yn y byd. Darparodd y cerrig milltir yn strategaeth frechu Llywodraeth Cymru hwb cryf i'r rhaglen a hyd at adeg cyhoeddi'r adroddiad, roedd y cerrig milltir allweddol wedi cael eu cyrraedd.

44 Mabwysiadwyd canllawiau Cydbwyllgor y DU ar Frechu ac Imiwneiddio ynghylch grwpiau blaenoriaeth ond mae'r broses o adnabod pobl yn rhai o'r grwpiau hyn wedi bod yn gryn her.

45 Mae'r sefydliadau a fu'n rhan o gyflwyno'r rhaglen wedi gweithio'n dda i sefydlu ystod o fodelau brechu sy'n gwneud y defnydd gorau o'r brechlynnau sydd ar gael, gan hefyd ddarparu cyfleoedd i roi brechiadau'n agos at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

46 Ar y cyfan roedd y gyfradd derbyn brechiadau hyd at adeg cyhoeddi'r adroddiad yn uchel, ond roedd cyfradd derbyn is ar gyfer rhai grwpiau ethnig ac yn y cymunedau mwyaf amddifadus. Ar adeg yr archwiliad, roedd gwastraff brechlynnau'n fach iawn, ond roedd pryderon yn dod i'r amlwg ynghylch peidio â chadw apwyntiadau a drefnwyd.

47 Y gadwyn gyflenwi ryngwladol yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar gyflwyno'r rhaglen, gyda stoc gyfyngedig o frechlynnau'n cael ei chadw yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd ymwybyddiaeth gynyddol o lefelau cyflenwadau yn y dyfodol yn galluogi byrddau iechyd i reoli'r broses o gyflwyno'r rhaglen frechu mewn modd effeithiol.

48 Wrth i'r rhaglen symud i mewn i ail hanner 2021, fe daeth heriau i'r fei o ran annog rhai grwpiau i gael eu brechu, cydnerthedd y gweithlu brechu ac argaeledd lleoliadau. Mae angen cynllun tymor hwy i fynd i'r afael â'r elfennau hyn ac elfennau eraill o'r rhaglen frechu barhaus.

## Sut y gwnaeth cyrff y GIG gefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19

49 Fe wnaeth fy adolygiad ystyried sut y mae cyrff y GIG wedi cefnogi lles eu staff yn ystod y pandemig, gyda ffocws penodol ar eu trefniadau ar gyfer diogelu staff sy'n wynebu risg uwch oherwydd COVID-19.

50 Mae staff y GIG wedi dangos cydnerthedd ac ymroddiad rhyfeddol trwy gydol y pandemig, er eu bod wedi wynebu straeniau enfawr ar eu hiechyd meddwl ac iechyd corfforol.

51 Roedd y GIG yng Nghymru eisoes yn wynebu nifer o heriau mewn perthynas â lles staff cyn y pandemig, ac mae'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl ac iechyd corfforol gweithlu'r GIG. Trwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, canfûm fod cyrff y GIG wedi symud yn gyflym ar ddechrau'r pandemig i wella mentrau lles i gefnogi staff trwy gyfnod digynsail. Wrth i'r pandemig ddatblygu, canfûm fod cyrff y GIG yng Nghymru wedi rhoi ystod o fesurau ar waith i wella lles staff, megis creu mannau gorffwys pwrpasol, cynyddu darpariaeth iechyd meddwl a lles seicolegol, gwella mesurau rheoli ac atal heintiau, a galluogi staff i weithio o bell.

52 Fe wnaeth fy ngwaith hefyd fwrw golwg ar sut y gwnaeth cyrff y GIG yng Nghymru amddiffyn staff a oedd yn wynebu risg uwch oherwydd COVID-19. Ymhlith mentrau diogelu eraill, canfûm fod yr holl gyrff wedi cyflwyno Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu sy'n adnabod y rhai sy'n wynebu risg uwch ac yn rhoi anogaeth i gynnal sgwrs am roi mesurau ychwanegol ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol. Er bod cyrff y GIG wedi hyrwyddo'r adnodd asesu ac wedi annog staff i'w gwblhau, roedd cyfraddau cwblhau'n amrywio rhwng cyrff y GIG.

53 Er bod yr argyfwng heb os wedi cael effaith sylweddol ar les staff yn y tymor byr, ni ellir tanamcangyfrif yr effeithiau tymor hwy.

54 Gyda gweithlu sydd wedi blino'n fwy nag erioed yn emosiynol ac yn gorfforol, rhaid i gyrff y GIG yng Nghymru gadw ffocws ar les staff ac ymgysylltiad â staff i ymgodymu ag effeithiau tymor hwy'r argyfwng. Felly, cyhoeddwyd rhestr wirio i gyd-fynd â'm hadroddiad sy'n nodi rhai o'r cwestiynau y dylai aelodau o Fyrddau yn y GIG fod yn eu gofyn i sicrhau bod gan eu cyrff iechyd drefniadau da i gefnogi lles staff.

## Asesiad strwythuredig

55 Cafodd fy ngwaith asesu strwythuredig ei ddylunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Fe wnes i sicrhau dull digon pragmatig a pherthnasol i'm helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan hefyd gyfyngu i'r eithaf ar yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i'r pandemig. Fe wnaeth fy nhîm y gwaith mewn dau gam eleni:

- fe wnaeth cam 1 ystyried y trefniadau cynllunio a oedd yn tanategu'r broses o ddatblygu a chyflawni'r cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar yn 2020-21.
- fe wnaeth cam 2 ystyried sut y gwnaeth trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol addasu dros y flwyddyn. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i gynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

## Trefniadau cynllunio gweithredol

56 Fe roddodd fy ngwaith ystyriaeth i drefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd a oedd yn tanategu'r cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar yn 2020-21. Roedd y fframwaith cynllunio'n cynnwys cynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i roi arweiniad o ran eu hymateb i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a gosod y sylfeini ar gyfer adfer gwasanaethau'n effeithiol.

57 Canfu fy ngwaith fod **trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol yn effeithiol, ond bod cyfleoedd o hyd i gryfhau trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol ac adrodd ar hynny**.

58 Fe wnaeth cynllun gweithredol y Bwrdd Iechyd ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21 fodloni canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru ac fe'i cyflwynwyd o fewn y ffrâm amser ofynnol yn dilyn ymgysylltu effeithiol ag Aelodau Annibynnol, Byrddau Clinigol, gwasanaethau galluogi (megis cyllid), a phartneriaid allanol perthnasol, megis y Cyngor Iechyd Cymuned.

59 Roedd y cynllun yn dilyn ymlaen o'r ddau gynllun chwarterol blaenorol ac roedd wedi'i danategu gan fodelu cadarn a data gweithredol, ariannol ac o ran y gweithlu a oedd o ansawdd da. Er bod trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd yn ddigon hyblyg ac ystwyth i ymateb i amgylchiadau newidiol, mae cyfleoedd iddo gryfhau ei drefniadau ar y cyfan ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir y cynllun gweithredol ac yr adroddir ar hynny.

## Trefniadau llywodraethu

60 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn gan hefyd orfod ymateb i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan y pandemig. Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y cafodd busnes a ohiriwyd yn 2020 ei adfer a sut y mae gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn llunio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu ac adferiad da ar sail barhaus.

61 Canfu fy ngwaith fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau a danategir gan systemau sicrwydd sy'n aeddfedu, ond bod cyfleoedd o hyd i gryfhau tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd. Er bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau eglur i roi cymorth i adfer gwasanaethau, mae angen cryfhau ei drefniadau i fonitro'r modd y cyflawnir y cynlluniau hyn ar y cyfan ac adrodd ar hynny.**

62 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i gynnal busnes y Bwrdd a Phwyllgorau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd, ond mae cyfle i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wella'n barhaus, yn ogystal â dysgu o'r pandemig. Mae gan y Bwrdd Iechyd gnewyllyn llawn a sefydlog o Aelodau Annibynnol. Bu newidiadau sylweddol i'r Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn, y

mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u rheoli'n dda i sicrhau parhad busnes, cynnal cydlyniant y Bwrdd, a sicrhau y terfir gyn lleied â phosibl ar staff a rhanddeiliaid.

63 Mae dull cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn gadarn. Mae ganddo gynlluniau eglur, megis y Cynllun Blynyddol, ar gyfer ymateb i'r pandemig parhaus, yn ogystal ag ar gyfer adfer gwasanaethau yn y tymor byr a chanolig, ac ailddylunio gwasanaethau yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir y cynlluniau hyn ar y cyfan ac adrodd ar hynny i alluogi craffu a sicrwydd llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o reoli risg a thracio argymhellion ymhellach, ac mae ei drefniadau ar gyfer darparu sicrwydd ynghylch materion ansawdd a diogelwch wedi gwella.

### Rheoli adnoddau ariannol

64 Fe wnes i ystyried perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, ei reolaethau ariannol a'i drefniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno. Canfûm **fod goruchwyliaeth gadarn ar gyllid y Bwrdd Iechyd a ategir gan adroddiadau o ansawdd da, ond bod gwendidau mewn rhai rheolaethau ariannol. Mae'r pandemig yn dal i achosi risg i allu'r Bwrdd Iechyd i adennill costau.**

65 Fe barhaodd y Bwrdd Iechyd i weithredu o fewn ei ddyraniad adnoddau cyfalaf, ond methodd â chyflawni'r ddyletswydd i beidio â mynd y tu hwnt i'w ddyraniad adnoddau refeniw dros y cyfnod treigl o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021. Mae'r pandemig wedi bod yn rhwystr difrifol i gyflawni arbedion o ran costau, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella hyn yn ystod 2021-22.

66 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithredu o fewn y rhan fwyaf o'i reolaethau ariannol presennol. Fodd bynnag, mae gwendidau mewn rheolaethau ariannol sy'n ymwneud â chaffael a gwariant cyfalaf mawr a ganfuwyd gan y Bwrdd Iechyd wedi arwain at achosion systematig o dorri'r rheolaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymchwilio i'r rhain ac mae'n cymryd camau i gryfhau ei reolaethau a threfniadau llywodraethu mewn perthynas â chynlluniau a gwariant cyfalaf. Mae craffu cadarn yn digwydd ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ac ategir hynny gan adroddiadau ariannol o ansawdd da, ond mae cyfle i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd yn y maes hwn.

## Gwasanaethau Radioleg: Diweddariad ar Gynnydd

67 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2017 ar wasanaethau radioleg.

68 Canfûm **fod y Bwrdd Iechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau radioleg trwy reolaeth gref ar y gwasanaeth. Fe wnaed cynnydd da i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaethom yn 2017, ond mae angen gwaith pellach**.

69 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni tri o’r argymhellion a wnaed yn 2017 ac mae’n gwneud cynnydd da o ran mynd i’r afael â phedwar argymhelliad pellach. Fodd bynnag, ni wnaed digon o gynnydd mewn perthynas â’r argymhelliad ynghylch cynyddu cyfraddau arfarniadau ar gyfer staff radioleg anghlinigol fel eu bod o leiaf yr un lefel â’r holl staff radioleg eraill.

70 Wrth gynnal yr asesiad hwn o gynnydd, canfuwyd un risg newydd mewn perthynas â gwasanaethau radioleg, sef galw uwch o ganlyniad i’r pandemig. Ceir lefel anhysbys o alw ‘sydd wedi pentyrru’ o ganlyniad i’r ffaith bod oedi wedi bod gyda thriniaeth cleifion neu fod cleifion heb ymweld â’u meddyg teulu yn ystod y pandemig. Gallai’r galw hwn sydd wedi pentyrru effeithio’n sylweddol ar allu’r gwasanaeth radioleg i ymateb i atgyfeiriadau a llunio adroddiadau ar ddelweddau mewn modd amserol, gan arwain at amseroedd aros cynyddol ar gyfer sganiau a llunio adroddiadau ar sganiau. Felly bydd angen i’r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr ei fod yn parhau i oruchwylio’r risg hon.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd ar y Bwrdd Iechyd yn 2021.

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2019-20) – Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Ionawr 2021 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2021 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2021 |
| Adendwm i'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Awst 2021 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Ei Wneud yn Wahanol, Ei Wneud yn Iawn?<br>(Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru Gyfan sy'n codi o Asesiadau Strwythuredig 2020 mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r GIG yn ystod COVID-19) | Ionawr 2021 |
| Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd Hyd Yma | Mawrth 2021 |
| Asesiad Strwythuredig 2021: Cam 1 Trefniadau Cynllunio Gweithredol | Ebrill 2021 |

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Mai 2021 |
| Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru | Mehefin 2021 |
| Gofalu am y Gofalwyr?<br>(Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru Gyfan sy'n codi o Asesiadau Strwythuredig 2020 mewn perthynas â lles staff yn ystod COVID-19) | Hydref 2021 |
| Gwasanaethau Radioleg: Diweddariad ar Gynnydd | Rhagfyr 2021 |
| Asesiad Strwythuredig 2021: Cam 2 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol | Rhagfyr 2021 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2021 | Ionawr 2021 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol yn 2021 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol trwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal ar y gweill**

Ceir nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau a amcangyfrifir |
|---|---|
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Ionawr 2022<br>Amseriad gwaith pellach sydd wedi'i gynnwys fel rhan o gynllun 2022 heb ei gadarnhau eto. |
| Orthopaedeg | Chwefror 2022 |
| Adolygiad Llywodraethu Ansawdd | Ionawr 2022 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd fy llythyr ffi archwilio ar gyfer 2021, dyddiedig 5 Mawrth 2021, yn amcangyfrif mai £400,652 fyddai'r ffi (heb gynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch). Rwy'n disgwyl ar hyn o bryd y bydd y ffi wirioneddol ryw £3,000 i £4,000 yn uwch na'r amcangyfrif. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân i gadarnhau'r ffi derfynol, a allai olygu tâl ychwanegol bach.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 6: risgiau archwilio ariannol**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2021 yn nodi’r risgiau archwilio ariannol ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21. Mae’r tabl isod yn rhestru’r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i’r afael â hwy fel rhan o’r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae’r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau’n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o’r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Byddaf yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau;<br>• gwerthuso’r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes; a hefyd<br>• cyflwyno gweithdrefnau ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o wrthwneud gan reolwyr nad yw’r gwaith gorfodol uchod yn mynd i’r afael â hwy. | Fe adolygais nifer o’r amcangyfrifon cyfrifyddu a sampl o’r trafodion a oedd yn cynnwys cofnodion dyddlyfr. Eto, fe wnes i waith archwilio estynedig sylweddol mewn perthynas â rhwymedigaethau cyfredol y Bwrdd Iechyd. Roedd fy nghanfyddiadau archwilio’n foddhaol ym mhob ffordd berthnasol. |
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, fe beidiodd byrddau iechyd â bod â therfynau adnoddau blynyddol o 1 Ebrill 2014. Yn lle hynny, fe newidion nhw i derfyn adnoddau dros gyfnod | Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 a’r sefyllfa gronnus dros dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, ar gyfer y terfynau adnoddau refeniw a chyfalaf. | Fel a nodir yn yr adroddiad hwn, cadarnhaodd fy archwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â’i ddyraniadau adnoddau cyfalaf dros gyfnod o dair blynedd; a’i fod heb gwrdd â’i ddyraniadau |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| treigl o dair blynedd, ar gyfer gwariant net refeniw a chyfalaf, gyda'r cyfnod cyntaf o dair blynedd yn rhedeg tan 31 Mawrth 2017.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn mynd y tu hwnt i'w derfyn refeniw dros dair blynedd yn y pedair blynedd ddiwethaf, ac felly fe wnes i amodi fy marn rheoleidd-dra ar ei ddatganiadau ariannol ar gyfer y blynyddoedd hynny.<br>Ar gyfer 2020-21, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl adennill costau. Pe bai'n cyflawni hynny, byddai'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â diffyg cronnus o £9.8 miliwn ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021 oherwydd y diffyg o £9.8 miliwn yn 2018-19. | Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd sy'n berthnasol dros y tair blynedd hynny.<br>Pe bai'r Bwrdd Iechyd yn methu â chwrdd â'r terfynau adnoddau dros dair blynedd ar gyfer gwariant refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl amodi fy marn rheoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2020-21. Gallaf hefyd osod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol i egluro'r sail ar gyfer yr amodiad a'r amgylchiadau a oedd yn bodoli pan gododd. | adnoddau refeniw dros gyfnod o dair blynedd. Felly fe wnes i amodi fy marn rheoleidd-dra. |
| Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn parhau ac fe allai'r pwysau ar adnoddau staff a phwysau gweithio o bell effeithio ar baratoi ac archwilio'r cyfrifon. Ceir risg y bydd ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol yn cael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. | Byddaf yn trafod eich proses cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn monitro'r broses paratoi cyfrifon. Byddaf yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod bylchau mewn trefniadau. | Fe wnes i fonitro a gwerthuso'r risg hon yn rheolaidd ac mae'n dda gennyf nodi na chododd unrhyw broblemau arwyddocaol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau. | | |
| Bydd y ffrydiau cyllid a gwariant cynyddol yn 2020-21 i ymdrin â phandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y risgiau o gamddatganiadau perthnasol, ar drefn ein harchwiliad ac ar ein dull o'i gyflawni. Mae enghreifftiau o faterion yn cynnwys cyfrifyddu ar gyfer ysbytai maes a'u costau cysylltiedig; twyll, gwall, a risgiau o ran rheoleidd-dra mewn perthynas â gwariant ychwanegol; prisio rhestrau eiddo ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys Eiddo, Offer a Chyfarpar; ac amcangyfrif balansau gwyliau blynyddol. | Byddaf yn adnabod y materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio ein gwaith i gael y sicrwydd y mae ei angen ar gyfer ein harchwiliad. | Fe archwiliais drafodion a balansau mewn perthynas â COVID-19. Fe gymhwysais lefel perthnasedd is i ysbytai maes y Bwrdd Iechyd, a arweiniodd at beth profi estynedig. Roedd fy nghanfyddiadau archwilio'n foddhaol. |
| O ran rhestr eiddo'r Bwrdd Iechyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y llynedd fe amodais fy marn archwilio, gan nodi fel a ganlyn: 'Oherwydd effaith pandemig COVID-19 a threfniadau'r cyfyngiadau symud statudol o 23 Mawrth | Byddaf yn parhau i asesu effaith COVID-19, a'r trefniadau ar gyfer cau'r cyfrifon, ar fy archwiliad o restr eiddo diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd. | Er bod fy nhîm eto'n methu ag arsylwi ar rannau o gyfrif diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd o'i restrau eiddo a'u hail-gyflawni, ar gyfer 2020-21 roedd balans rhestrau eiddo diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd yn amherthnasol. Fe wnes i waith archwilio estynedig i brofi'r balans |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| 2020, nid oeddwn yn gallu arsylwi ar rannau o gyfrif y Bwrdd Iechyd o'i restrau eiddo ar 31 Mawrth 2020 a'u hail-gyflawni. Gan nad wyf wedi gallu cael y sicrwydd archwilio gofynnol trwy ddull arall, rwyf felly'n methu â phennu a yw'r balans rhestrau eiddo diwedd blwyddyn o £16.784 miliwn a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn berthnasol gywir a theg'. Os yw rhestr eiddo'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn berthnasol, a minnau eto'n methu â bod yn bresennol ar gyfer rhannau o gyfrif y Bwrdd Iechyd o'i restrau eiddo, byddwn yn disgwyl amodi fy marn eto.<br>Mae'n bwysig pwysleisio wrthych, fel y gwnes i'r llynedd, na fyddai amodiad yn digwydd o ganlyniad i ddiffygion yn systemau neu weithredoedd y Bwrdd Iechyd, ond yn hytrach oherwydd effaith COVID-19 ar un o'n gweithdrefnau archwilio allweddol. | | ar ddiwedd y flwyddyn i gael sicrwydd nad oedd yn amherthnasol i'm harchwiliad (h.y. bod y balans heb gael ei danddatgan).<br>Roedd canlyniadau fy ngwaith archwilio'n foddhaol ac felly ni wnes amodi fy marn archwilio. |
| Mae ysbyty maes Calon y Ddraig yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, | Rwyf wedi bod yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Bwrdd Iechyd i aros gyfuwch â'r materion | Fe wnes i'r gwaith archwilio arfaethedig, a arweiniodd at ganlyniad boddhaol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| gyda chost o ryw £70 miliwn yn ôl yr amcangyfrif. Comisiynwyd yr ysbyty yng ngwanwyn 2020 ac mae bellach yn cael ei ddatgomisiynu a’r safle’n cael ei adfer i’w gyflwr blaenorol. Mae’r gwaith hwn i fod i gael ei wneud yn ystod 2020-21. Mae natur newydd a chymhleth y prosiect hwn, ynghyd â’i werth uchel, yn creu risg gynhenid o gamddatganiad yn y datganiadau ariannol. | allweddol. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi amlygu ei fod yn disgwyl darparu ei holl ddogfennaeth ar fy nghyfer ym mis Mawrth, ar gyfer fy adolygiad. Yn dilyn yr adolygiad archwilio hwn, bydd yr ysbyty’n rhan allweddol o’m gwaith i brofi’r datganiadau ariannol a’r datganiad llywodraethu blynyddol. | |
| Y llynedd, o ganlyniad i COVID-19, ac yn unol â chanllawiau penodol a gyhoeddwyd gan eu sefydliad proffesiynol, datganodd prisiwr eiddo’r Bwrdd Iechyd ‘ansicrwydd prisio perthnasol’ ym mhedwar o’u hadroddiadau prisio. Roedd cyfanswm gwerth y pedwar adroddiad yn £65 miliwn o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2020. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi defnyddio’r adroddiadau prisio hyn i oleuo gwaith i fesur gwerthoedd rhai o’i asedau eiddo ar y dyddiad hwnnw. Y llynedd fe gynhwysais baragraff ‘Pwyslais ar | Byddaf yn adolygu’r holl brisiadau yn ystod 2020-21 o dir ac eiddo’r Bwrdd Iechyd ac yn ystyried effaith unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd ar fy archwiliad. | Fe wnes i fy ngwaith archwilio arfaethedig a ganfu nad oedd unrhyw ansicrwydd perthnasol wedi’i nodi gan y priswyr ar gyfer 2020-21. Felly, ar gyfer 2020-21, nid oedd angen i mi nodi pwyslais ar fater. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Fater' yn fy marn archwilio a oedd yn tynnu sylw at eich datgeliad ynglŷn â'r ansicrwydd perthnasol. Gallai fod prisiadau tebyg eleni sy'n cynnwys ansicrwydd perthnasol y prisiwr oherwydd COVID-19. | | |
| Mae'r broses o roi menter 'y cynllun yn talu' ar waith mewn perthynas â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol yn dal i fynd rhagddi. Y llynedd fe gynhwysais baragraff 'Pwyslais ar Fater' yn fy marn archwilio a oedd yn tynnu sylw at eich datgeliad ynghylch y rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Fodd bynnag, pe bai unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn, byddwn yn ystyried ei fod yn afreolaidd gan y byddai'n groes i ofynion 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. | Byddaf yn adolygu'r dystiolaeth flwyddyn yn ddiweddarach mewn perthynas â defnyddio'r cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn ynghylch rheoleidd-dra. | Fel a nodir yn yr adroddiad hwn, fe ychwanegais destun Pwyslais ar Fater ochr yn ochr â'm barn archwilio, ac fe osodais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon. Ni wnes i amodi fy marn rheoleidd-dra gan nad oedd unrhyw wariant o fewn cyfrifon 2020-21. |
| Rwy'n archwilio rhai o'r datgeliadau yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol, megis cydnabyddiaeth uwch swyddogion ac aelodau | Byddaf yn adolygu'r holl gofnodion yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol i wirio bod y Bwrdd Iechyd wedi adlewyrchu'r holl newidiadau hysbys i uwch | Fe wnes i fy ngwaith archwilio arfaethedig, a arweiniodd at nifer o gywiriadau perthnasol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| annibynnol, i lefel perthnasedd isel. Felly mae’r datgeliadau yn eu hanfod yn fwy tueddol o gael eu camddatgan yn berthnasol.<br>Mewn archwiliadau yn y gorffennol rwyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a gyflwynwyd i mi ei archwilio, y gwnaeth y Bwrdd Iechyd eu cywiro wedyn. Rwyf felly’n barnu bod risg y gallai datgeliadau 2020-21 gael eu camddatgan. | swyddi, a bod y datgeliadau’n gyflawn ac yn gywir. | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.